Beth yw Bagloriaeth Cymru?

Mae cymhwyster Bagloriaeth Cymru yn unigryw i Gymru.

Daw â chymwysterau at ei gilydd sy'n paratoi myfyrwyr rhwng 14 a 19 oed ar gyfer cyflogaeth, astudio ymhellach a bywyd.



Beth yw barn prifysgolion, cyflogwyr a myfyrwyr am y cymhwyster?

ymholiadau@cymwysteraucymru.org
T: 01633 373 222
@cymwysterau_cym

Er bod Bagloriaeth Cymru yn gymharol newydd, mae cyflogwyr a phrifysgolion yn gweld gwerth ynddo yn barod.

"Mae Bagloriaeth Cymru yn codi dyheadau disgyblion yng Nghymru i barhau i ddatblygu eu sgiliau ac yn helpu i'w paratoi ar gyfer profiad yn y brifysgol."
Dirprwy Is-Ganghellor Prifysgol.

Mae cyflogwyr yn dweud ei bod yn datblygu sgiliau bywyd a dealltwriaeth o fusnes, ac yn paratoi pobl ifanc am fyd gwaith.

"Rydym yn ystyried bod Bagloriaeth Cymru yn gyfle gwych i helpu myfyrwyr i drosglwyddo o'r amgylchedd addysg i'r amgylchedd gwaith." **Cyflogwr.**

Dywedodd **myfyrwyr**:

"Rhoddodd gyfle da i mi weithio y tu allan i'r ysgol a gwneud rhywbeth fyddai'n wir ddefnyddiol i'r gymuned."

"Mae'n dda iawn i bobl sydd eisiau mynd ati i ddechrau eu busnes eu hunain, mae'n rhoi ychydig o flas iddynt."

Ceir rhagor o wybodaeth am Fagloriaeth Cymru ar wefannau Cymwysterau Cymru a CBAC.